

# Cynllun strategol

## 2015–2018

---



# Cyngor Fferyllol Cyffredinol

## Cynllun strategol 2015–2018

Cynllun strategol i'w gyflwyno i'r Senedd  
ac i Senedd yr Alban yn unol â Pharagraff  
8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferyllol 2010

---

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyddestun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2014

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) neu gallwch ffonio ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8100**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan [www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications](http://www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications)

# Cynnwys

- 1 Rhagair gan y cadeirydd a'r prif weithredwr
  - 3 Ein cenhadaeth
  - 3 Ein gweledigaeth
  - 4 Yr hyn a wnawn
  - 5 Ein prif themau ar gyfer 2015-2018
-

# Rhagair gan y cadeirydd a'r prif weithredwr

Llynedd, cyhoeddwyd ein hadolygiad strategol cynhwysfawr cyntaf ers ein sefydlu yn 2010. Diweddariad ar gyhoeddiad llynedd yw'r cynllun strategol hwn, yn adlewyrchu datblygiadau allanol ar hyd a lled Prydain Fawr. Mae'r datblygiadau hyn yn peri brwdfrydedd, ac mae consensws yn cael ei greu ynghylch y rôl y mae'n rhaid i fferylliaeth ei chyflawni os ydym am ateb yr heriau sy'n ein hwynebu, heriau o'r cyd-destun iechyd cyhoeddus ehangach yn enwedig. Mae rhai materion sy'n dal i beri gofid i ni, fodd bynnag, achosion amlwg o ofal annigonol dros gleifion sy'n agored i niwedd yn eu plith.

Roedd ein cynllun strategol llynedd yn egluro bod ein cyngor o'r farn mai penderfyniadau unigol staff fferyllol sy'n cyfrannu mwyaf at welliannau ansawdd fferyllol a rheoli risgiau i gleifion, ond bod gennym ni rôl allweddol wrth helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r sector yn ei gyfanrwydd i wella ansawdd, gyda diogelwch yn rhan allweddol o'r gwelliant hwnnw.

Rhaid i bawb sydd ynghlwm wrth ofal iechyd, naill ai drwy ddarparu gofal iechyd neu reoleiddio gwasanaethau gofal iechyd a'r gweithwyr proffesiynol sydd yn ei ddarparu, hwnnw ymateb yn

llawn i ymchwiliadau ac adroddiadau ar fethiannau amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiad ar Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford, adroddiad *Ymddiried mewn Gofal* Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn ogystal â'r ymchwiliad i ysbyty Vale of Leven. Mae themâu cyson, yn ymwneud â diwylliant a phwysigrwydd proffesiynoldeb, didwylledd, a ffocws ar ofal cleifion, yn rhai y dylem oll wastad eu cofio.

Mae'r datganiadau clir gan weinidogion ar hyd a lled Prydain ynghylch pwysigrwydd gwireddu potensial fferylliaeth yn ei chyfanrwydd wedi bod yn ddatblygiad pwysig dros y ddeuddeng mis diwethaf. Yn adroddiad Llywodraeth yr Alban, *Prescription for Excellence*, a dogfen NHS Lloegr, *Pharmacy call to action*, y crisialwyd hyn yn fwyaf di-flewyn ar dafod. Yn sgil yr uchelgais sydd yn yr adroddiadau hyn ac yn rhan o bolisi cyhoeddus Cymru, Lloegr a'r Alban, mae gofyn i ni ystyried ein rôl a'n cyfraniad at y maes. Yn ogystal â hyn mae'r awydd yn y DU, dan oruchwyliaeth y bwrdd ailgytbwyso, yn ein hatgoffa bod polisi cyhoeddus a rheoleiddio yn feysydd sy'n cyson newid. Mae'r datblygiadau hyn yn golygu bod angen i ni ystyried yn benodol:

- Y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol y dyfodol a sut bydd ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gorfod newid i fynd i'r afael â hyn.
- Sut gallwn ni ddefnyddio ein rôl fel rheoleiddiwr gweithwyr proffesiynol unigol a rheoleiddiwr gwasanaethau fferyllol a ddarperir drwy fferyllfeydd cofrestredig i rannu data, gwybodaeth a dealltwriaeth am y newidiadau mewn fferylliaeth er mwyn rhannu datblygiadau a syniadau newydd ac adnabod a lliniaru risgiau.
- Yr angen i ganolbwyntio'n gyson ar anghenion y cleifion y gofelir amdanynt gan weithwyr fferyllol proffesiynol ac sy'n derbyn cyngor, gwasanaethau a gofal gan fferyllfeydd cofrestredig; a sut i hybu proffesiynoldeb a gofal tyner sydd â'r claf yn ganolog iddo er mwyn lleihau methiannau proffil uchel mewn gofal.

Mae'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i gynllun strategol llynedd yn adlewyrchu'r datblygiadau allanol y cyfeiriwyd atynt yn ogystal â'r hyn a ddysgwyd gennym o'n gwaith, a'r data a gasglwyd gennym. Mae llawer o heriau yn wynebu gofal iechyd yn gyffredinol, a fferylliaeth yn benodol; mae'r cynllun strategol hwn yn ddatganiad clir ynghylch y cyfraniad y bwriadwn ni, fel y rheoleiddiwr, ei wneud i ateb yr heriau, fel corf sy'n cyfrannu'n actif, yn hytrach nag yn gwyllo o bell.



**Nigel Clarke**  
Cadeirydd



**Duncan Rudkin**  
Prif Weithredwr a  
Chofrestrydd

# Ein cenhadaeth

Mae'r Senedd a Senedd yr Alban wedi gosod ein hamcan statudol:

*Diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd, yn enwedig yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n defnyddio neu sydd ag arnynt angen gwasanaethau aelodau cofrestredig, neu'r gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cofrestredig, drwy sicrhau bod aelodau cofrestredig, a'r bobl hynny sy'n cynnal busnesau manwerthu fferyllol mewn fferyllfeydd cofrestredig, yn cadw at y safonau yr ystyria'r Cyngor yn angenrheidiol ar gyfer ymarfer fferylliaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.*

---

# Ein gweledigaeth

Mae ein gweledigaeth yn un lle mae rheoleiddio fferyllol yn cyfrannu at wella ansawdd - gyda diogelwch yn rhan allweddol o hynny - mewn ymarfer fferyllol a gofal iechyd yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

---



# Yr hyn a wnawn

Dyma ein swyddogaethau craidd:

- gosod y safonau ar gyfer yr addysg a'r hyfforddiant y mae'n rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol eu cyrraedd er mwyn ymuno â'r gofrestr ac i barhau'n gofrestredig gydol eu gyrfa
- cofrestru fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a gosod y safonau ymddygiad a pherfformiad y mae'n rhaid iddyn nhw eu cyrraedd er mwyn aros ar ein cofrestr
- gosod safonau y mae'n rhaid i berchnogion fferyllfeydd cofrestredig a fferyllwyr goruchwyliol mewn fferyllfeydd y mae cwmnïau yn berchen arnynt eu cyrraedd
- cofrestru fferyllfeydd sy'n cyrraedd y safonau hynny a'u harolygu i sicrhau eu bod yn parhau i'w cyrraedd, wrth i'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r cyd-destun y maen nhw'n gweithredu o'i fewn newid yn gyson
- gweithredu pan na chyrhaeddir ein safonau. Y swyddogaethau hyn sy'n mynd i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion. Ein nod yw cyflawni'r

Y swyddogaethau hyn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon er mwyn i ni allu cyfrannu mewn ffordd gredadwy tuag at y gwaith o wella fferylliaeth, drwy:

- ddefnyddio safonau i godi disgwyliadau dros amser er mwyn hybu gwelliannau
- defnyddio'r hyn a ddysgwn am fferylliaeth drwy ein gwaith rheoleiddio craidd a gan eraill mewn ffordd werth chweil
- defnyddio ein llais i ddylanwadu ar fferylliaeth a datblygiadau polisi sy'n ymwneud â fferylliaeth, yn unol â'n gweledigaeth
- darparu fframwaith rheoleiddio y gall proffeisynoldeb ffynnu oddi mewn iddo.

# Ein prif themau ar gyfer 2015-2018

Mae ein dull rheoleiddio yn canolbwyntio ar y canlyniadau a ddaw i gleifion ac i'r cyhoedd. Rydyn ni am i ganlyniadau rheoleiddio gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles cleifion a'r cyhoedd.

Er mwyn gwireddu hyn byddwn yn canolbwyntio ar ein pedair prif thema:

- 1** gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o safon uchel
- 2** rhoi pobl wrth galon yr hyn a wnawn fel rheoleiddiwr
- 3** defnyddio'r wybodaeth sydd gennym yn sgil ein gwaith gydag eraill i hybu gwelliannau yn ansawdd gofal ac mewn gwasanaethau fferyllol
- 4** hybu diwylliant proffesiynol gyda'r claf wrth galon popeth o fewn fferylliaeth.

Wrth gyflawni ein hamcanion strategol byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan y sawl yr ydym yn eu rheoleiddio yn y ffordd orau bosibl, gan chwilio'n gyson am ffyrdd i wella ein heffeithlonrwydd a manteisio ar bob cyfle i wneud hynny.

Mae CFC yn datblygu fel sefydliad er mwyn i ni allu cyflawni'r rhaglen waith uchelgeisiol yr ydym wedi ei chreu ar ein cyfer ein hunain. Mae'r mentrau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau corfforaethol. Byddwn yn mesur ein cynnydd yn erbyn y cynlluniau corfforaethol pob blwyddyn ac yn trafod ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol yn adroddiad blynyddol 2017/18.

# Gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o safon uchel

*Mae gwasanaethau rheoleiddio rhagweithiol o safon uchel yn golygu y byddwn wastad yn ein herio ein hunain i gynnal a gwella a'n bod yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio, drwy fesur a gwerthuso gofalus.*

Yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun strategol hwn yn berthnasol iddo:

- Byddwn yn gwneud cynnydd mesuradwy sylweddol yn y gwaith o ddatrys gofidiau ynghylch addasrwydd ymarfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn fwy cyflym.
- Byddwn yn creu cysylltiadau gwell rhwng y wybodaeth a gesglir o ffynonellau gwahanol, ac yr ydym yn sicr o'i hansawdd, er mwyn targedu ein hymyriadau rheoleiddio'n fwy effeithiol.
- Byddwn yn defnyddio rhwydweithiau gwybodaeth a phartneriaethau gweithredol effeithiol gyda darparwyr gofal iechyd, y GIG, comisiynwyr (lle bo hynny'n berthnasol), rheoleiddwyr

a chyrrff perthnasol eraill ledled Prydain Fawr i nodi a mynd i'r afael â materion problematig a risgiau i gleifion.

- Bydd y safonau y mae fferyllfeydd yn eu cyrraedd gyda ac ar gyfer cleifion yn gwella'n fesuradwy yn sgil y wybodaeth yr ydym yn ei rhannu ynghylch yr hyn a ganfyddir yn ein harolygon.
- Bydd ein gwaith yn gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr fferyllol proffesiynol a'n gwaith yn sicrhau ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant hwnnw, yn ogystal â'n gwaith yn sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas i ymarfer, yn ystyried yn llawn anghenion ehangach cymdeithas a'r heriau iechyd cyhoeddus, a thrwy hynny yn sicrhau bod y sawl sydd eisoes wedi cofrestru a'r sawl fydd yn cofrestru yn y dyfodol, n gallu diwallu anghenion cleifion a'r cyhoedd.

# Rhoi pobl wrth galon yr hyn a wnawn fel rheoleiddiwr

*Ein nod yw canolbwyntio ar ganlyniadau, yn hytrach nag ar brosesau, rheolau a rheoliadau, gweinyddiaeth neu weithgarwch. Dulliau ymarfer unig yw'r rhain, nid ydynt ynddyn nhw eu hunain yn cyflawni dim. Pobl sydd wrth galon ein gwaith ni - y bobl sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau fferyllol.*

Yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun strategol hwn yn berthnasol iddo:

- Byddwn yn estyn allan at gleifion a gofalwyr – a'u cynrychiolwyr ac eiriolwyr – i'w cynorthwyo i gael y wybodaeth angenrheidiol ac i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol a'u helpu i godi cwestiynau a mynegi pryderon.
- Bydd cynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn greiddiol i bob rhan o'r broses datblygu polisi rheoleiddiol. Bydd ymglymu â darparwyr gwasanaethau fferyllol a gofal, yn cynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisiau. Bydd y gwaith ymglymu

hwn yn dechrau yn gynnar yn y broses o ddatblygu syniadau ac yn parhau tan iddynt gael eu gweithredu ac yna'u gwerthuso.

- Bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir mewn fferyllfeydd cofrestredig a gan dechnegwyr fferyllol yn derbyn cymorth a chefnogaeth i'w galluogi i rannu profiadau a gofidiau gyda ni er mwyn llywio pob agwedd ar ein gwaith. Bydd y staff sydd yn gweithio mewn fferylliaeth hefyd yn gallu codi llais fwyfwy a mynegi pryderon wrth uwch swyddogion neu eu cyflogwyr a bod yn ffyddiog y gallan nhw fod yn onest gyda chleifion pan fo pethau yn mynd o chwith.
- Byddwn yn gwrandao ar adborth ac yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i wasanaethau cwsmer sy'n ymglymu'n effeithiol gyda defnyddwyr ac sydd o safon uchel, ac felly'n creu cyfleoedd da i gynnig adborth. Byddwn hefyd yn egluro'r hyn y byddwn yn ei wneud yn sgil yr adborth hwnnw.

# Defnyddio'r wybodaeth sydd gennym yn sgil ein gwasanaethau rheoleiddio a'n gwaith gydag eraill i hybu gwelliannau yn ansawdd gofal ac mewn gwasanaethau fferyllol

*Rydym yn ystyried bod y data, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddaw i'n rhan yn greiddiol i'r ymdrech i sicrhau canlyniadau rheoleiddio da. Byddan nhw'n ein galluogi i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwaith ac yn darparu tystiolaeth am yr hyn sydd angen ei newid i wella fferylliaeth.*

Yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun strategol hwn yn berthnasol iddo:

- Byddwn yn dadansoddi data a ddaw o'n gwaith rheoleiddio ac yn craffu'n ofalus ar wybodaeth a ddaw i'n rhan am faterion problematig a risgiau mewn fferylliaeth, er mwyn diweddarau ein safonau ac i lywio ymyriadau rheoleiddio

yn y meysydd yr ydym yn eu rheoleiddio ac yna werthuso eu heffaith.

- Byddwn yn adrodd yn ôl i'r proffesiwn a rhanddeiliaid fferylliaeth am yr adborth a ddaw gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol ac o'n gwaith yn sicrhau ansawdd, er mwyn llywio eu hymdrechion i wella ansawdd fferylliaeth.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd, yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwn o'n data, er mwyn tynnu sylw at faterion problematig a chyfleodd i wella fferylliaeth.

# Defnyddio rheoleiddio i hybu diwylliant proffesiynol gyda'r claf wrth galon popeth o fewn fferylliaeth

*Credwn mai drwy weithio'n broffesiynol y gellir orau ddiogelu cleifion a gwella ansawdd fferylliaeth. All rheoleiddio ddim creu proffesiynoldeb ond gall – drwy weithio gydag eraill – greu awyrgylch sy'n galluogi ffyniant proffesiynoldeb.*

Yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun strategol hwn yn berthnasol iddo:

- Byddwn yn gweithio gyda chleifion a defnyddwyr eraill gwasanaethau fferyllol, y tîm fferyllol amlddisgyblaethol a'u harweinwyr a chynrychiolwyr, i greu gyda'n gilydd weledigaeth o fferylliaeth broffesiynol â'r claf wrth ei chalon.
- Byddwn yn sicrhau bod y proffesiynoldeb hwn, gyda'r claf wrth ei galon, yn greiddiol i:
  - addysg a hyfforddiant fferyllol ar gyfer y proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio a'r tîm ehangach
  - y safonau a osodwn ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd a fferyllwyr goruchwyliol.
  - y safonau y mae'n rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol eu cyrraedd er mwyn ymuno â'r proffesiwn a pharhau'n addas i ymarfer gydol eu gyrfa.
- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith datblygu ni ein hunain, yn cynnwys ymchwil a gwerthuso, fwyfwy yn ystyried y canlyniadau a ddaw i gleifion a'r ffyrdd y gall proffesiynoldeb sydd â'r claf wrth ei chalon effeithio ar y maes.



Gellir lawr lwytho'r ddogfen hon, yn Saesneg neu yn y  
Gymraeg, o'n gwefan:

[www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications](http://www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications)

Os ydych am gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol,  
cysylltwch â'n tîm cyfathrebu ar

[communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org)

Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
25 Canada Square  
Llundain  
E14 5LQ  
Ffôn: 020 3713 8000  
E-bost: [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)  
Dylunio gan [wearetangerine.co.uk](http://wearetangerine.co.uk)

**Cyngor  
Fferyllol  
Cyffredinol**